Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Pecyn Adnoddau Cam-drin Plant yn Rhywiol – Fersiwn Manwl

*Datblygwyd y pecyn adnoddau hwn er mwyn gweithredu a hyrwyddo Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol*

## Trefniadau ar gyfer ATAL cam-drin plant yn rhywiol

Y ffordd orau o ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yw ei stopio rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae angen i ni hyrwyddo dealltwriaeth well o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, eu teuluoedd, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd, fel bod modd iddynt adnabod ac ymateb i risgiau cam-drin plant yn rhywiol.

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn gallu bod yn bwnc dadleuol iawn. Mae dealltwriaeth a sylwadau cyffredin ynghylch natur cam-drin plant yn rhywiol a pha mor gyffredin ydyw wedi newid dros gyfnod. Mae hyn yn cynnwys agweddau hanesyddol tuag at gam-drin plant yn rhywiol, sy'n seiliedig ar drafodaethau heriol lle mae cam-drin plant yn rhywiol wedi'i wadu a heb ei gredu, a lle mae'r dioddefwyr wedi cael y bai am eu camdriniaeth eu hunain.

Mae profiadau a fynegwyd gan bobl sydd wedi goroesi'r profiad o gael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant, fel rhan o Brosiect Gwirionedd IICSA, yn dangos yn hollol glir sut y mae dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol, a'r ffordd yr oedd y pwnc yn cael ei drafod yn y gorffennol, wedi cadw dioddefwyr yn dawel, hyd yn oed pan oeddent yn ceisio dweud wrth bobl am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt.

Bydd angen i ddeunydd ymgyrchu ystyried sut mae camdybiaethau ac agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu llywio gan rywedd, ethnigrwydd a diwylliant, rhywioldeb ac anabledd.

Mae angen i ni helpu pobl i ddeall sut mae'r ffyrdd rydym yn siarad - neu ddim yn siarad – am gam-drin plant yn rhywiol yn rhan bwysig o newid agweddau ac atal camdriniaeth. Mewn cymunedau lle mae pobl yn deall bod cam-drin plant yn rhywiol yn gallu digwydd, ac yn digwydd, mae pobl yn fwy tebygol o adnabod y risg ac ymateb yn briodol er mwyn atal camdriniaeth rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae deall sut mae cydberthnasau yn cael eu ffurfio, eu datblygu a'u cynnal yn ein galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau sy'n caniatáu i ni greu ein cydberthnasau iach ein hunain.

Mae'n helpu plant i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i lywio'n effeithiol trwy'r dylanwadau hyn sy'n newid yn gyflym, a sefydlu perthnasoedd parchus sy'n rhoi boddhad trwy gydol eu bywydau. Gall y rhain gynnwys perthnasoedd teuluol, cyfeillgarwch, perthnasoedd proffesiynol a pherthnasoedd rhywiol. Gall hefyd helpu plant i sylwi pan fydd pethau'n digwydd yn eu perthynas ag eraill nad ydynt yn iach nac yn briodol.

Gwefan ddwyieithog o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yw SchoolBeat.Org. Mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau i ddisgyblion, athrawon, rhieni a phartneriaid i atgyfnerthu'r negeseuon allweddol a gyflwynir gan ein Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â mewn lleoliadau addysgol amgen. Mae'r safle hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y gwersi thema a gynigir gan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, gan gynnwys, er enghraifft, 'Stori Griff', sef gwers Blwyddyn 6 a gynlluniwyd i addysgu disgyblion am broblemau cam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol. Gwers ysgol uwchradd yw 'Pictiwr Peryg' am ganlyniadau cymdeithasol ac emosiynol secstio a'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud. Mae'r safle'n cynnwys adnoddau ar berthnasoedd iach.

Gwybodaeth am berthnasoedd anniogel i rieni
Gwybodaeth i blant ysgolion cynradd
Gwybodaeth i blant ysgolion uwchradd

Rhaid ystyried ymddygiad rhywiol sy'n broblematig ar gontinwwm o ymddygiad sy'n amrywio o normal i niweidiol ac, mewn nifer fach o achosion, ymddygiad camdriniol. Mae'n rhaid i'n hymatebion i blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol gynnwys cymorth cynnar i atal niwed iddyn nhw ac i blant eraill. Bydd ymyrryd yn gynnar er mwyn i blant ddeall pam y credir bod eu hymddygiad yn amhriodol, fel bod modd nodi unrhyw broblemau sylfaenol, yn eu hamddiffyn rhag mwy o niwed ac yn atal plant eraill rhag cael eu cam-drin.

Dylai ymarferwyr sydd mewn cysylltiad â phlant a'u teuluoedd geisio rhannu gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd. Dylent hefyd egluro bod angen gwybod sut y gallant helpu i gadw'r plant sydd dan eu gofal yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys deall sut y gall cam-drin plant yn rhywiol ar-lein, heb gysylltiad, effeithio ar blant.

Gellir cefnogi dysgu ymarferwyr mewn nifer o ffyrdd, trwy ledaenu gwybodaeth ac adnoddau, trwy ddysgu ar-lein, a thrwy godi ymwybyddiaeth yn uniongyrchol a hyfforddiant. Gellir hybu arferion da trwy gynnwys diogelu fel eitem sefydlog mewn cyfarfodydd tîm a thrwy oruchwylio. Gall hyn gynorthwyo asiantaethau i nodi anghenion dysgu ymarferwyr.

Yn 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i Stop it Now! Cymru er mwyn datblygu a chyflwyno ymgyrch i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol trwy alluogi'r cyhoedd i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol. Roedd yr ymgyrch 'Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol – Popeth rydym angen ei wybod' yn rhoi cyngor a gwybodaeth allweddol i'r cyhoedd trwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth a oedd yn cynnwys cyfryngau traddodiadol, cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau. Yr un pryd, cafodd sesiynau dysgu i rieni/gofalwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd eu cynnal ar draws chwe rhanbarth y Byrddau Diogelwch Plant. Mae adnoddau priodol i oedran

hefyd ar gael ar gyfer y blynyddoedd cynnar – er enghraifft, deunydd Siarad Pants y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC).

Mae angen i rieni/gofalwyr wybod sut y gallant wirio a yw'r oedolion y maent yn caniatáu iddynt fod mewn cysylltiad â'u plant yn ddiogel, ynteu a allent achosi risg i'w plant.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu gwybodaeth am y Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth i rieni ac ymarferwyr a deunydd cyfathrebu i hyrwyddo'r wybodaeth hon.

Mae Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC (CPSU) wedi cynhyrchu Cadw Plant yn Ddiogel mewn Chwaraeon – Siarter i Rieni, sy'n rhoi cyngor ynglŷn â sut y gall rhieni wirio bod y gweithgareddau chwaraeon y mae eu plentyn yn cymryd rhan ynddynt wedi cyflwyno mesurau diogelu.

Bydd nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn cael eu cyflwyno pan fydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cyhoeddi. Bydd y rhain yn cynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar gam-fanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau newydd ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 - Diogelu plant rhag cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â'r canllawiau newydd hyn ac â'r Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Dylai ymarferwyr hefyd fod yn gyfarwydd ag adnoddau Stop it Now!

Mae tystiolaeth y gallai ymarferwyr fod â llai o wybodaeth a dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol yng nghyswllt plant o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), plant anabl a phlant lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBTQ+), lle mae rhwystrau eraill yn golygu ei fod yn anoddach i'w weld. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu adnoddau a digwyddiadau dysgu i wella dealltwriaeth ymarferwyr a rhieni/gofalwyr.

Pan fydd achos o gam-drin ymhlith cyfoedion mewn ysgol neu leoliad addysg arall, neu pan fydd pryderon ynghylch dysgwr mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol niweidiol, dylid helpu pawb sy'n gweithio yn y lleoliad addysg i reoli achosion yn effeithiol.

Dylid cynllunio ar gyfer pob achos a'i reoli er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ddiogel, ac nad oes effaith negyddol ar y cyfleoedd addysg ar gyfer plant sydd ag ymddygiad rhywiol niweidiol na dysgwyr eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar reoli cam-drin ymhlith cyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol mewn lleoliadau addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ac ymgynghori ar god ymarfer diogelu gwirfoddol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a chanllawiau cysylltiedig i rieni. Bydd y cod yn nodi'r disgwyliadau diogelu ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol a bydd gwybodaeth i rieni yn eu cynorthwyo i ddewis gweithgareddau i'w plant mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol lle mae mesurau diogelu ar waith.

Roedd adolygiad o drefniadau diogelu corfforaethol awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac a gyhoeddwyd yn 2015, yn cyflwyno argymhellion ynghylch nifer o feysydd i'w gwella. Mae gan ddiogelu corfforaethol ran greiddiol i'w chwarae wrth

sicrhau bod mesurau digonol ar waith i gadw plant yn ddiogel. Gall diogelu corfforaethol hefyd helpu i sicrhau bod trefniadau caffael a thrwyddedu'n hyrwyddo diogelu. Mae ychydig o arferion da i'w gweld yn barod, o ran gofynion hyfforddi ar yrwyr tacsi trwyddedig, er enghraifft, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Gellid gwneud mwy hefyd trwy wirio diwydrwydd dyladwy yng nghyswllt diogelu pan fydd unigolion neu sefydliadau'n gwneud cais i rentu safleoedd corfforaethol ar gyfer gweithgareddau y mae plant yn cymryd rhan ynddynt.

Mae diogelu corfforaethol hefyd yn bwysig er mwyn atal achosion sefydliadol o gam-drin plant yn rhywiol, ac mae tystiolaeth o hyn yn y ddogfen Key messages from research on institutional child sexual abuse, 2018 a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae prosesau recriwtio a dethol trylwyr, a'r angen i sefydliadau greu diwylliant agored lle mae diogelu yn cael ei weld fel busnes i bawb, yn sicrhau bod gan blant fannau diogel i fynd iddynt a pherthnasoedd cadarnhaol â nifer o aelodau'r staff. Yn ychwanegol at hyn, dylai prosesau sefydliadol (fel gweithdrefnau cydweithio, goruchwylio a chwythu'r chwiban) fod ar waith er mwyn lleihau'r cyfleoedd i gamdriniaeth ddigwydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC er mwyn datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol enghreifftiol a fydd yn arwain at welliannau a chysondeb mewn trefniadau lleol a rhanbarthol.

Mae cymdogaethau wedi'u nodi fel safleoedd lle gall pobl ifanc brofi camdriniaeth a thrais, a/neu gael eu diogelu rhagddynt. Gall hyn gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant mewn siopau bwyd brys, cam-fanteisio troseddol mewn parciau, trais ieuenctid difrifol ar lwybrau trafnidiaeth, gweld cyffuriau'n cael eu defnyddio a chyffuriau'n cael eu gwerthu mewn cartrefi i oedolion sy'n agored i niwed. Er bod asiantaethau eisoes yn gweithio er mwyn cadw pobl ifanc yn ddiogel y tu allan i'r cartref, er enghraifft cynlluniau diogelu cymdogaethau a'r heddlu, mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar atal troseddau yn hytrach na sicrhau lles plant a'u diogelu. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gall pobl ifanc gael eu diogelu rhag niwed yn y gymdogaeth mewn llawer o wahanol ffyrdd - yn amrywio o gynllunio mewn ffordd sy'n rhwystro cyfleoedd i gam-drin rhag digwydd, i greu cyfleoedd ar gyfer gwarcheidwaid cymunedol. Mae'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol, ym Mhrifysgol Swydd Bedford yn cynnig Pecyn Cymorth Asesu Cymdogaeth ar-lein, a fydd yn cynorthwyo partneriaid i ystyried materion perthnasol er mwyn cefnogi cymunedau mwy diogel.

## Trefniadau ar gyfer AMDDIFFYN plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

Un o'r anawsterau wrth geisio amcangyfrif pa mor gyffredin yw achosion o gam-drin plant yn rhywiol yw bod cymaint o achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod heb eu hadnabod. Mae'n anghyffredin i blant wneud datgeliad, felly mae angen i weithwyr proffesiynol ac oedolion cyfrifol eraill allu gweld arwyddion cam-drin posibl a chymryd camau priodol. Mae plant yn cadw'n dawel am nifer o resymau, gan gynnwys ofni'r sawl sy'n eu cam-drin, ddim eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fod mewn trwbl, teimlo mai 'arnyn nhw mae'r bai' eu bod yn cael eu cam-drin, a theimlo'n gyfrifol am yr hyn fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud wrth rywun. Bydd cefnogi dealltwriaeth well o gam-drin plant yn rhywiol ymhlith plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin ac ymarferwyr o gymorth i adnabod mwy o achosion a chael mwy o ddatgeliadau fel y gall plant gael eu hamddiffyn cyn gynted â phosibl.

Am y tro cyntaf, gwnaeth Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2015 i 2016 redeg modiwl o gwestiynau a oedd yn gofyn i oedolion a oeddent wedi cael eu cam-drin pan oeddent yn blant. Gofynnwyd i oroeswyr a nododd eu bod wedi dioddef ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant trwy drais rhywiol neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a wnaethant ddweud wrth unrhyw un am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt ar adeg y cam-drin. Roedd ychydig o dan dri chwarter o'r goroeswyr (74%) heb ddweud wrth neb am y cam-drin ar yr adeg yr oedd y cam-drin yn digwydd. Fodd bynnag, ar adeg y cyfweliad, roedd y rhai hynny a oedd yn 45 oed neu'n iau yn fwy tebygol o lawer na'r rhai hynny rhwng 45 a 59 oed o fod wedi dweud wrth rywun ar yr adeg y digwyddodd y cam-drin. Mae hyn yn dangos i raddau bod cyfraddau datgelu wedi cynyddu dros gyfnod. Dim ond un o bob 10 (10%) o bawb a wnaeth oresgyn ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant, boed yn drais rhywiol neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a oedd wedi dweud wrth rywun swyddogol am y cam-drin ar y pryd, ac roedd 7% o'r rhain wedi rhoi gwybod i'r heddlu am y cam-drin.

Ni chaiff llawer o gam-drin mewn teuluoedd ei ddatgelu o hyd. Gallai fod ar blant ofn y sawl sy'n eu cam-drin, neu efallai nad ydynt eisiau i'r sawl sy'n eu cam-drin fod mewn trwbl. Efallai eu bod yn teimlo mai 'arnyn nhw mae'r bai' am y cam-drin, ac yn teimlo'n gyfrifol am yr hyn fydd yn digwydd i'w teulu os byddant yn dweud wrth rywun. Mae plant anabl, plant LGBT+ a rhai plant o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn wynebu rhwystrau ychwanegol. Mewn rhai cymunedau, bydd credoau diwylliannol ynghylch 'parch' yn effeithio ar y ffordd y mae aelodau o'r teulu a'r gymuned ehangach yn ymateb i blentyn sy'n cael ei gam-drin yn rhywiol, a gall hyn beri i'r plentyn ac aelodau cefnogol o'r teulu gadw'n dawel. Gall camdriniaeth gan aelod o'r teulu fod yn brofiad trawmatig iawn am ei fod yn ymwneud â lefelau uchel o frad, gwarth a chyfrinachedd. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyhoeddi *Key Messages from research on intra-familial child sexual abuse*, 2018.

Defnyddir y term 'achosion sefydliadol o gam-drin plant yn rhywiol' i wahaniaethu rhwng cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destun sefydliadol a'r hyn sy'n digwydd mewn teulu neu leoliad arall. Gall ddigwydd mewn amrywiaeth eang o leoliadau pan fydd gan unigolion bŵer dros y plant neu pan fydd y plant yn ymddiried ynddynt. Gall achosion sefydliadol o gam-drin plant yn rhywiol fod yn achosion sy'n ymwneud ag un cyflawnwr ac un dioddefwr, ond, yn aml iawn mewn achosion sefydliadol o gam-drin plant mae mwy nag un dioddefwr.

Gall achosion sefydliadol o gam-drin plant yn rhywiol hefyd fod yn achosion lle mae nifer o bobl yn cam-drin plant o fewn yr un sefydliad, ac mae hyn yn cynnwys cyfoedion yn cam-drin ei gilydd yng nghyd-destun diwylliant o gam-drin sefydliadol. Mae llawer o achosion o gam-drin plant yn rhywiol nad ydynt yn rhai diweddar wedi cael eu cysylltu â sefydliadau, ac yn aml iawn nid yw'r cam-drin wedi ei ddatgelu am lawer o flynyddoedd.

Gellir lawrlwytho poster i staff ysgol sy'n rhoi cyngor i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod.

Mae angen i blant wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifri. Dylai pob lleoliad addysgol geisio dangos i blant ei fod yn gallu cynnig amgylchedd diogel iddynt allu siarad am faterion sy'n effeithio arnynt. Gall arddangos gwybodaeth am linellau cymorth cenedlaethol i blant, fel Comisiynydd Plant Cymru, ChildLine, Meic, NSPCC a chynlluniau cymorth cyfoedion, mewn lleoedd hawdd eu gweld, er enghraifft mewn cynllunwyr blwyddyn disgyblion, eu hannog i rannu pryderon a chael help. Mae posteri hefyd ar gael i helpu plant i godi eu llais pan fydd ganddynt bryder: Cyngor i blant ysgolion cynradd a Chyngor i blant ysgolion uwchradd. Dylai pob lleoliad addysgol, fel arfer effeithiol, arddangos y posteri hyn ar ei safle mewn man amlwg i blant.

Mae oedolion sydd wedi goroesi wedi dweud wrthym am y bygythiadau a ddefnyddiwyd yn eu herbyn gan y sawl a wnaeth eu cam-drin er mwyn eu cadw'n dawel pan oeddent yn blant. Mae goroeswyr sydd wedi siarad â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) trwy'r Prosiect Gwirionedd wedi sôn hefyd am y ffyrdd y gwnaeth eu camdrinwyr ac oedolion eraill yr oeddent yn ymddiried ynddynt eu tawelu.

Mae oedolion sydd wedi goroesi wedi dweud wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'w helpu i ddeall yr hyn a allai ddigwydd mewn gwirionedd pe baen nhw'n dweud wrth rywun am y cam-drin. Felly, llywiwyd eu dealltwriaeth gan y rhai hynny a oedd yn eu cam-drin er mwyn eu tawelu. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau ar gyfer plant i egluro beth fydd yn digwydd mewn gwirionedd os byddant yn datgelu wrth oedolion diogel eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol.

Ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi'i wneud ar effaith cam-drin plant yn rhywiol ar rieni nad ydynt yn cam-drin, ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod angen i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin plant gael mynediad at wybodaeth am y prosesau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol; cyngor ar sut i gefnogi eu plentyn/plant, a chymorth gyda'r effaith emosiynol y mae cam-drin plant yn rhywiol yn ei gael ar y plentyn a'r teulu.

Mae Stop it Now! wedi cynhyrchu adnodd, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, i rieni, gofalwyr ac aelodau eraill o'r teulu ar atal cam-drin plant yn rhywiol, ac mae'n cynnwys ychydig o gyngor ynglŷn â sut i ymateb i blant a'u cefnogi. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rhagor o adnoddau ar gyfer rhieni/gofalwyr ar y broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i achos o gam-drin plant yn rhywiol, ar y ffyrdd gorau o gynorthwyo plant, ac ar ffynonellau cymorth a chefnogaeth i rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin plant.

Mae tystiolaeth gan PACE yn nodi bod rhieni a gofalwyr sydd wedi'u heffeithio gan gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi sôn am 'ddioddefwr yn beio'r teulu'; teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi i reoli effaith emosiynol magu plentyn sydd wedi'i gam-drin trwy

gamfanteisio’n rhywiol ar blant, a theimlo nad oes neb yn gwrando arnynt ac yn eu cymryd o ddifri. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau ar gyfer teuluoedd a gofalwyr maeth ynghylch camfanteisio’n rhywiol ar blant, gydag awgrymiadau ymarferol ar beth i’w wneud i reoli camfanteisio’n rhywiol ar blant o fewn y teulu a gwybodaeth am yr hyn sy’n mynd i ddigwydd, pwy allai fod yn gysylltiedig, ac o ble y gallant gael cymorth.

Yn 2018, fe wnaeth rhieni plant a oedd yn derbyn cymorth ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol gymryd rhan mewn ymgynghoriad bychan a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethant nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu, yn teimlo gwarth ac yn teimlo’n ynysig mewn ymateb i’r profiad o gael plentyn yr oedd arno angen cymorth oherwydd ymddygiad rhywiol niweidiol. Roedd hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl y rhiant. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnoddau ar gyfer teuluoedd a gofalwyr maeth ynghylch camfanteisio’n rhywiol ar blant, gydag awgrymiadau ymarferol ar beth i’w wneud er mwyn rheoli camfanteisio’n rhywiol ar blant o fewn y teulu a gwybodaeth am yr hyn sy’n mynd i ddigwydd, pwy allai fod yn gysylltiedig â’r achos, ac o ble y gallant gael cymorth.

Canfu ymchwil a wnaed gan yr NSPCC nad yw oedolion bob amser yn adnabod, yn deall nac yn ymateb yn briodol pan fydd plentyn yn dechrau dweud wrthynt am ei brofiadau o gael ei gam-drin. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i’r NSPCC yn 2018 i gefnogi’r gwaith o greu adnoddau a chynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i gefnogi ymarferwyr wrth ymateb i ddatgeliad o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae ymchwilio i honiadau o gam-drin plant yn gam hollbwysig yn yr ymdrech i amddiffyn plant. Er y bydd asiantaethau eraill yn ymwneud ag agweddau ar y broses ymchwilio, yr Heddlu a’r Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n bennaf gyfrifol am yr ymchwiliad. Gall hyfforddiant gefnogi ymarfer sy’n canolbwyntio ar y plentyn yn ystod y broses ymchwilio ar y cyd.

Mae’r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cynhyrchu adroddiad a ffilm yn seiliedig ar dystiolaeth i helpu ymarferwyr o gefndiroedd amlasiantaethol i ddeall rôl a diben archwiliad meddygol yn well mewn sefyllfaoedd lle mae achos o gam-drin plant yn rhywiol wedi’i ddatgelu neu’n cael ei amau. Mae’n gymwys i unrhyw leoliad lle gallai plant gael eu gweld am archwiliad meddygol, ac mae’n berthnasol i achosion diweddar a hen achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae ar ymarferwyr angen gwybodaeth am y dulliau seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir i helpu plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol er mwyn cefnogi eu hadferiad a’u lles. Mae arnynt angen gwybodaeth hefyd am ddulliau o gefnogi aelodau o’r teulu nad ydynt yn cam-drin, a gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl sy’n cefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol trwy’r broses adfer.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn o adnoddau hyfforddi i gynorthwyo ymarferwyr i ymdrin â datgeliadau, y broses ymchwilio a chefnogi plant a theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol.

# Trefniadau ar gyfer CEFNOGI plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein yn gallu cael effaith negyddol ar ganlyniadau lles plant ymhell wedi iddynt dyfu'n oedolion. Rhaid i'n hymatebion i blant gynnwys cymorth seiliedig ar dystiolaeth sy'n debygol o gefnogi adferiad o'r trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin, adeiladu gwytnwch, a sicrhau gwelliannau mwy hirdymor i'w lles.

Prif ffynhonnell y dystiolaeth ar amlder achosion o gam-drin plant yn rhywiol yw'r Gofrestr Amddiffyn Plant ar hyn o bryd, ond gwyddom nad adroddi am bob achos o gam-drin plant yn rhywiol. Yr un pryd, mae cyfran y plant sydd ar gynllun amddiffyn oherwydd cam-drin rhywiol yng Nghymru wedi syrthio o 21% yn 1993/4 i 4% yn 2016/17, sy'n ostyngiad o 331 o blant i 120 o blant.

Yn ystod yr un cyfnod, cam-drin rhywiol oedd wrth wraidd rhwng 24% a 48% o'r cofrestriadau am resymau amrywiol; yn y flwyddyn ddiweddaraf, nodwyd cam-drin rhywiol mewn 30 (24%) o 125 o achosion 'lluosog'. Y cyfuniad amlaf a adroddwyd oedd cam-drin rhywiol ac esgeulustod. Yn gyffredinol, y Gofrestr Amddiffyn Plant a ddefnyddir fel y brif ffynhonnell dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch gosod blaenoriaethau, dyrannu adnoddau a hyfforddiant.

Mae astudiaeth gwmpasu a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn nodi, os ystyrir yr amrywiadau mewn astudiaethau amlder ar gyfer Cymru a Lloegr, bod y data a ystyriwyd yn yr astudiaeth yn awgrymu bod tua 15% o ferched a 5% o fechgyn yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn iddynt gyrraedd 16 oed, gan gynnwys cam-drin gan oedolion a chyfoedion. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd a nifer y cwestiynau a ofynnwyd yn effeithio ar yr amcangyfrifon; ar yr ochr uchaf, mae amcangyfrifon rhyngwladol yn cyrraedd 30% i ferched a 23% i fechgyn.

Mae hyn yn awgrymu efallai nad data'r Gofrestr Amddiffyn Plant, yn enwedig yng nghyd-destun lleihau cofrestriadau ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, yw'r ffynhonnell orau o dystiolaeth i lywio gwaith cynllunio er mwyn diwallu anghenion plant. Caiff hyn ei gymhlethu hefyd gan y ffaith ei bod yn bosibl nad yw llawer o blant sy'n cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol arnynt wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae hyn oherwydd bod rhai achosion o gam-drin rhywiol yn digwydd y tu allan i'r teulu, ac oherwydd bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gorgynrychioli o safbwynt cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannol ariannu gwaith ymchwil sy'n cael ei arwain gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol: *Exploring the scale of CSA in social care records: Wales File Study*. Caiff yr ymchwil ei wneud mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o nifer y plant sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol lle nodwyd achosion o gam-drin plant yn rhywiol a cham-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Dylai'r ymchwil hefyd helpu partneriaid ar Fyrddau Diogelu i ystyried y ffordd orau o ddangos y cyfraddau tebygol ar gyfer amlder achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol cyfredol ar gyfer Awdurdodau Lleol yn 2016 fel Cod Ymarfer. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020, gyda'r ffurflenni cychwynnol yn cael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2021. Mae'r Fframwaith newydd hwn yn cynnwys data meintiol a fydd yn dangos nifer a llif unigolion trwy'r system gofal cymdeithasol, ac am y tro cyntaf bydd hyn yn cynnwys data am gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Pan fydd plentyn yn datgelu achos(ion) o gam-drin plant yn rhywiol, neu pan fydd tystiolaeth sy'n awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, dylid ei gyfeirio at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC). Mae canolfan SARC yn lleoliad pwrpasol i ddarparu gofal ar unwaith a gofal parhaus i gleientiaid, gan gynnwys cefnogaeth feddygol, ymarferol ac emosiynol yng nghyd-destun trefniant partneriaeth rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector. Yn dilyn canfyddiadau adolygiad gan Lywodraeth Cymru yn 2013, galwyd am adolygiad amlasiantaethol o wasanaethau ymosodiadau rhywiol, gan gynnwys y canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARC) yng Nghanolbarth, De a Gorllewin Cymru, yn cael ei arwain gan Gydweithrediad Iechyd GIG Cymru. Datblygwyd model gwasanaeth a chytunwyd arno mewn egwyddor yn 2016. Ym mis Mehefin 2018 cytunodd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i arwain cam nesaf y model gwasanaeth newydd (y cam gweithredu). Sefydlwyd Bwrdd Prosiect, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r holl asiantaethau partner: Iechyd; Heddluoedd Gwent, De Cymru a Dyfed Powys, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y rhanbarthau hyn; Llwybrau Newydd, fel darparwr trydydd sector yn y rhanbarth; a chynrychiolaeth o'r byrddau diogelu yn y rhanbarth.

Nid oedd Gogledd Cymru yn rhan o'r gwaith datblygu gwasanaeth cychwynnol ar gyfer arolygiad amlasiantaethol o wasanaethau ymosodiadau rhywiol gan fod un SARC ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru, ond cydnabyddir bod buddion sylweddol i weithio ledled Cymru, ac mae Gogledd Cymru yn aelod gweithredol o grŵp cynllunio gweithredu a grwpiau gorchwyl a gorffen y prosiect SARC.

Mae Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC) yn cynnig cefnogaeth a gwasanaeth cwnsela i unrhyw un sy'n 3 oed a throsodd, sy'n byw yn unrhyw un o'r 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, y mae ei fywyd wedi'i effeithio gan drais rhywiol, cam-drin rhywiol neu unrhyw fath arall o drais rhywiol. Pwrpas y Ganolfan yw darparu gwasanaeth gwrando, cwnsela, gwybodaeth a chefnogaeth gyfrinachol, a helpu i addysgu'r cyhoedd ynglŷn â materion trais a cham-drin rhywiol a'u heffeithiau, boed yn gorfforol, meddygol, seicolegol neu gymdeithasol. Rhaid i'r holl gwnselwyr a therapyddion fod yn aelodau o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) neu gymdeithas gyfatebol.

Mae gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan Gydweithrediad Iechyd GIG Cymru o dan Gam 2 y gwaith gan Fwrdd y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn cynnwys ystyried amrediad o fodelau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a fydd yn llywio datblygiad gwasanaeth sy'n cynyddu fesul cam.

Ceir tystiolaeth, er enghraifft mabwysiadu dull gweithredu Barnahus neu Tŷ Plant yng nghynllun peilot cyntaf y DU, gwasanaeth The Lighthouse yn Llundain, a modelau arferion da sefydledig fel y rhai yn SARC St Mary's Centre, ym Manceinion. Bydd hyn yn sail i Fanyleb genedlaethol ar gyfer gwasanaethau SARC i blant yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Chydweithrediad Iechyd GIG Cymru er mwyn sefydlu grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr perthnasol i ddatblygu ac ymgynghori ar Lwybr Clinigol cenedlaethol i blant sydd wedi datgelu achos o gam-drin plant yn rhywiol/ plant lle mae achos o gam-drin plant yn rhywiol wedi'i nodi.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn comisiynu adolygiad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth o ymyriadau seiliedig ar drawma i helpu i ddatblygu ymyriadau therapiwtig sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth a gwasanaethau ehangach sy'n seiliedig ar drawma. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gwasanaethau i blant sydd wedi profi trawma, gan gynnwys y rhai hynny sydd angen cefnogaeth i wella oherwydd cam-drin rhywiol.

Prosiect ymchwil ac ymarfer sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yw 'Gwella'. Mae'n cael ei weithredu mewn partneriaeth rhwng Barnardo's Cymru a CASCADE, Prifysgol Caerdydd. Nod prosiect Gwella yw lleihau'r risg y bydd plant sy'n agored i niwed yn cael eu cam-drin yn rhywiol neu'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol, trwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol, er mwyn gwella lles plant. Mae'r dull ymarfer wedi cael ei dreialu mewn nifer o awdurdodau lleol gyda phlant rhwng 5 ac 11 oed y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â'u bywydau oherwydd pryder hanesyddol neu dystiolaeth o drawma datblygiadol cynnar, megis cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol a gweld trais domestig. Mae prif egwyddorion dull ymarfer Gwella yn cynnwys:

- Deall effaith y trawma ar ddatblygiad y plentyn
- Sefydlu ymateb perthynol a therapiwtig, sy'n seiliedig ar chwarae, o amgylch y plentyn
- Mae gwella/cyfoethogi'r berthynas rhwng y plentyn a'r prif ofalwr/ prif ofalwyr yn un o'r prif nodau
- Mae gwella/cyfoethogi'r berthynas rhwng y plentyn ac oedolion arwyddocaol eraill yn un o'r prif nodau
- Bydd plant yn derbyn ymateb wedi'i deilwra sy'n addas i'w cryfderau a'u hanghenion unigryw.

Mae oedolion sydd wedi goroesi'r profiad o gael eu cam-drin pan oeddent yn blant wedi dweud wrthym ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â ble i fynd er mwyn cael cefnogaeth a chyngor ynglŷn ag effaith y profiad ar eu lles. Nid yw rhai goroeswyr yn datgelu nes byddant yn oedolion. Mae eraill yn cael eu hadnabod fel unigolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant, ond yn canfod bod trawma'r profiad hwnnw o gyfnod eu plentyndod yn effeithio arnynt yn nes ymlaen ar adegau arwyddocaol yn eu bywydau neu'n barhaus.

Mae Ymddiriedolaeth Goroeswyr Cymru yn gweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â thrais a cham-drin rhywiol yng Nghymru, ac mae'n hyrwyddo'r angen am addysg, hyfforddiant i staff a gwasanaethau priodol i oroeswyr. Mae gwefan a llinell gymorth Byw Heb Ofn gan Lywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyngor i ddioddefwyr trais rhywiol, ac mae nifer o ymgyrchoedd cyhoeddus wedi tynnu sylw at yr adnodd.

Os yw’r gwasanaethau’n ymwneud â phlentyn sy’n agosáu at 18 oed, mae’n bwysig meddwl am wneud atgyfeiriadau priodol i wasanaethau oedolion, ond ni fydd pob plentyn yn cael gwasanaethau oedolion ar yr adeg yma. Bydd gwybodaeth am ffynonellau gwybodaeth neu gyngor a chefnogaeth a roddir i blant y gwyddys eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn eu helpu i wybod beth sydd ar gael i oedolion pe bai arnynt angen cefnogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu adnodd priodol.

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Pecyn Adnoddau Cam-drin Plant yn Rhywiol – Canllaw cyflym i'r dolenni

*Datblygwyd y pecyn adnoddau hwn er mwyn gweithredu a hyrwyddo Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol*

## Trefniadau ar gyfer ATAL cam-drin plant yn rhywiol

Prosiect Gwirionedd
Profiadau a rannwyd gan rai sydd wedi goroesi cael eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant.

SchoolBeat.Org
Gwefan ddwyieithog gan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau i ddisgyblion, athrawon, rhieni a phartneriaid er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon allweddol a gyflwynir gan ein Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â lleoliadau addysgol amgen.
Gwybodaeth am berthnasoedd anniogel i rieni
Gwybodaeth i blant ysgolion cynradd
Gwybodaeth i blant ysgolion uwchradd

Stop it Now!
Sefydliad sy'n rhannu gwybodaeth am gamau ataliol y gall oedolion eu cymryd er mwyn amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.

Siarad Pants yr NSPCC
Adnoddau priodol i oedran y blynyddoedd cynnar.

| |
|---|
| Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant<br>Mae'r Swyddfa Gartref wedi darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gwybod sut y gallant wirio a yw'r oedolion y maent yn caniatáu iddynt ddod i gysylltiad â'u plant yn ddiogel ynteu a allent achosi risg i'w plant. |
| Cadw Plant yn Ddiogel mewn Chwaraeon – Siarter i Rieni<br>Yn rhoi cyngor ynglŷn â sut y gall rhieni wirio bod y gweithgareddau chwaraeon y mae eu plentyn yn cymryd rhan ynddynt wedi cyflwyno mesurau diogelu. |
| *Key messages from research on institutional child sexual abuse, 2018*<br>Ymchwil a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol |

# Trefniadau ar gyfer AMDDIFFYN plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol

| |
|---|
| *Key Messages from research on intra-familial child sexual abuse, 2018*<br>Ymchwil a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol |
| Poster i staff ysgol gan **Lywodraeth Cymru**<br>Poster y gellir ei lwytho i lawr ac sy'n rhoi cyngor i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod |
| Dolenni ar gyfer **Llinellau Cymorth** i Blant<br>Comisiynydd Plant Cymru<br>ChildLine<br>Meic<br>NSPCC |
| PACE<br>Adroddiad a ysgrifennwyd er mwyn cymeradwyo a chyfathrebu'r arferion gorau a chanlyniadau cadarnhaol wrth ymateb i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. |
| Adnoddau **NSPCC**<br>I gefnogi ymarferwyr sy'n ymateb i ddatgeliad o gam-drin plant yn rhywiol |
| Ffilm **gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol**<br>I helpu ymarferwyr o gefndiroedd amlasiantaethol i gael gwell dealltwriaeth o rôl a phwrpas archwiliad meddygol mewn sefyllfaoedd lle mae cam-drin plant yn rhywiol wedi cael ei ddatgelu neu lle mae amheuaeth ohono. |

## Trefniadau ar gyfer CEFNOGI plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol

| |
|---|
| **Adroddiad yn 2018 ar astudiaeth gwmpasu gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol**<br>Yn mesur maint y broblem ac yn edrych ar y newid yn natur cam-drin a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru a Lloegr. |
| Gwasanaeth The Lighthouse<br>Y Tŷ Plant cyntaf yn y DU. Yn 2015 comisiynodd NHS England (London) adolygiad yn dwyn y teitl "Review of the pathway following Children's Sexual Abuse in London". Roedd yr adolygiad o gam-drin plant yn rhywiol yn argymell y dylid datblygu gwell gwasanaethau fforensig i blant a phobl ifanc yn The Havens (canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol Llundain), cynllun peilot o'r model Tŷ Plant (ymarfer gorau rhyngwladol) ac, fel cam cyntaf, sefydlu hybiau Cam-drin Plant yn Rhywiol yn Llundain. |
| SARC St Mary's Centre<br>Model ymarfer da sydd wedi ennill ei blwyf ym Manceinion. |
| Ymddiriedolaeth Goroeswyr Cymru<br>Yn gweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â thrais a cham-drin rhywiol yng Nghymru ac yn hyrwyddo'r angen am addysg, hyfforddiant i staff a gwasanaethau priodol i oroeswyr. |
| Byw Heb Ofn<br>Mae'r wefan a'r llinell gymorth hon gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyngor i ddioddefwyr trais rhywiol. |